# 2021 Rhif (LlC21-30)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Cyfarwyddydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir gan adrannau 23(1) a 24(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru 2021.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "data gwasanaethau iechyd" ("*health service data*") yw data a brosesir ar gyfer darparu neu hybu gwasanaethau o dan y Ddeddf neu mewn cysylltiad â darparu neu hybu gwasanaethau o'r fath;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "gweithlu digidol" ("*digital workforce*") yw'r rheini sydd wedi eu cyflogi neu sydd wedi eu cymryd ymlaen, neu sy'n ystyried cael eu cyflogi neu eu cymryd ymlaen, i ddylunio, datblygu neu gyflenwi platfformau, systemau a gwasanaethau digidol;

ystyr "IGDC" ("*DHCW*") yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru a sefydlwyd gan erthygl 2 o Orchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020(**2**);

ystyr "platfformau, systemau a gwasanaethau digidol" ("*digital platforms, systems and services*") yw caledwedd, meddalwedd a threfniadau eraill ar gyfer casglu, storio, prosesu,

---

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2020/1451 (Cy. 313).

dadansoddi, defnyddio a lledaenu data gwasanaethau iechyd yn ddigidol.

### Swyddogaethau

**3.**—(1) Er mwyn sicrhau y darperir neu yr hybir platfformau, systemau a gwasanaethau digidol effeithiol, mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo IGDC i wneud y canlynol—

(a) dylunio, datblygu a chyflenwi, naill ai yn uniongyrchol neu drwy ymrwymo i drefniadau ag eraill, blatfformau, systemau a gwasanaethau digidol;

(b) cefnogi a chynorthwyo eraill i ddylunio, datblygu a chyflenwi platfformau, systemau a gwasanaethau digidol;

(c) cefnogi datblygiad a gweithrediad safonau cyffredin ar gyfer platfformau, systemau a gwasanaethau digidol;

(d) cynghori a chynorthwyo Gweinidogion Cymru mewn perthynas â diogelwch platfformau, systemau, gwasanaethau digidol a data gwasanaethau iechyd;

(e) cefnogi datblygiad y gweithlu digidol dwy addysg, hyfforddiant a hybu safonau proffesiynol.

(2) Caiff IGDC wneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso cyflawni ei swyddogaethau, neu sy’n ffafriol i’w cyflawni neu’n gysylltiedig â’u cyflawni.

(3) Caiff IGDC ddarparu cyngor a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ar unrhyw fater sy’n gysylltiedig â’i swyddogaethau.

(4) Wrth arfer ei swyddogaethau, ni chaiff IGDC ddatgelu gwybodaeth os yw datgelu’r wybodaeth honno wedi ei wahardd drwy unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall.

### Gwella

**4.** Rhaid i IGDC arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar—

(a) sicrhau bod platfformau, systemau a gwasanaethau digidol yn effeithiol at ddiben darparu gwasanaethau iechyd o dan y Ddeddf; a

(b) hybu gwelliant—

  (i) yn ansawdd platfformau, systemau a gwasanaethau digidol;

  (ii) yn y gweithlu digidol; a

  (iii) mewn darparu gwasanaethau iechyd o dan y Ddeddf.

**Cynllun blynyddol**

**5.**—(1) Rhaid i IGDC lunio, a chyflwyno i Weinidogion Cymru, ar gyfer pob blwyddyn ariannol Gynllun Blynyddol sy'n pennu sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau o dan y Cyfarwyddydau hyn.

(2) Wrth lunio ei Gynllun Blynyddol rhaid i IGDC ystyried—


(a) y galw tebygol am wasanaethau iechyd yn y dyfodol o dan y Ddeddf; a

(b) blaenoriaethau darparwyr gwasanaethau iechyd mewn perthynas â phlatfformau, systemau a gwasanaethau digidol.

**Canllawiau a osodir gan Weinidogion Cymru**

**6.** Rhaid i IGDC, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

*Enw*



Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad 21 Mawrth 2021